# Yn barod i ôl-osod

## Datblygu'r sgiliau ar gyfer gwaith adeiladu gwyrdd



## Y Diwydiant Ôl-osod

Wrth i lywodraethau a sefydliadau ym mhedwar ban byd flaenoriaethu targedau lleihau carbon, mae ôl-osod adeiladau presennol wedi dod i'r amlwg fel strategaeth allweddol i gyflawni'r nodau hyn. Mae hyn yn gyfle i fanteisio ar y galw cynyddol ac i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen i ragori yn y byd adeiladu gwyrdd sy'n esblygu.

## Ein cymwysterau ôl-osod

Mae ein cymwysterau ôl-osod wedi cael eu datblygu ar y cyd ag arbenigwyr yn y diwydiant i gyd-fynd ag anghenion y diwydiant ac i wella'r sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen ar

### 7618-02 Dyfarniad Lefel 2 mewn Ôl-osod

- Datblygu gwybodaeth a sgiliau hanfodol mewn arferion ôl-osod, gan gynnwys y rolau, y cyfrifoldebau a'r gofynion cysylltiedig.
- Delfrydol ar gyfer unigolion sy'n dechrau ar eu taith yn y diwydiant ôl-osod.
- Canolbwyntio ar arferion ôl-osod (PAS 2035) ac effaith hyn ar systemau eiddo.

### 7618-12 Tystysgrif Lefel 2 mewn Ôl-osod

- Datblygu dealltwriaeth gynhwysfawr o ddefnyddiau a thechnegau ôl-osod.
- Addas ar gyfer dysgwyr sy'n dymuno datblygu arbenigedd manwl mewn gwaith adeiladu gwyrdd.
- Ymdrin ag arferion gweithio diogel, rheoliadau'r diwydiant, cyfathrebu effeithiol ac egwyddorion PAS 2035/2038.

### 7618-03 Tystysgrif Lefel 3 ar gyfer Ymgynghorwyr Ôl-osod *NEWYDD*

- Delfrydol ar gyfer y rheini sy'n dechrau arni yn y diwydiant adeiladu fel Ymgynghorydd Ôl-osod.
- Addas ar gyfer unigolion sy'n ceisio gwella neu ddatblygu eu gwybodaeth am ôl-osod.
- Ymdrin ag ôl-osod, sgiliau cyfathrebu, ac iechyd a diogelwch, gan ganolbwyntio ar effaith cynaliadwyedd a newid hinsawdd.



## Cyfleoedd cyllido



Mae cyllid ar gael ar gyfer ein cymwysterau Ôl-osod Lefel 2 drwy gyllidebau addysg oedolion a chyllid 16-19 y llywodraeth (yn amodol ar gymhwysedd dysgwyr), ac maent wedi cael eu cymeradwyo ar gyfer ardoll CITB:

- Gall cyflogwyr sy'n talu ardoll CITB hawlio £600 o Gyllid Grant CITB fesul cymhwyster ar gyfer dysgwyr llwyddiannus.
- Mae Cyfraddau Cyllid AEB yn £195 ar gyfer Dyfarniad Lefel 2 ac yn £941 ar gyfer Tystysgrif Lefel 2.

## Dilyniant gyrfa

Newyddion cyffrous! Mae City & Guilds wrthi'n datblygu cymhwyster Lefel 4 sydd wedi'i deilwra i gefnogi dilyniant gyrfa dysgwyr yn y diwydiant ôl-osod. Mae cymwysterau uwch fel hyn yn darparu llwybr i ddysgwyr wella eu harbenigedd, ysgwyddo cyfrifoldebau, a mynd ar drywydd rolau arwain. Dyma ganllaw sy'n dangos llwybrau gyrfa posib ym maes ôl-osod, gan amlinellu sut mae dysgwyr yn symud ymlaen drwy gymwysterau City & Guilds ar gyfer cyfleoedd ym maes adeiladu cynaliadwy.

## Cymorth bob cam o'r ffordd

Yn City & Guilds, rydyn ni wedi ymrwymo i'ch llwyddiant chi. Mae ein cynghorwyr technegol profiadol a'n rheolwyr ymroddedig yn y diwydiant yma i roi arweiniad arbenigol i chi, i gynnig gwybodaeth werthfawr, i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y diwydiant ac i'ch cefnogi chi i ddarparu rhaglenni hyfforddi



**Anfonwch e-bost atom:**
**construction@cityandguilds.com**

**Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn:**